Adroddiad Blynyddol 2007/08
Trustees' Annual Report 2007/08

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyflwyno'i adroddiad a'i ddatganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008.

The Board of Trustees presents its report and audited financial statements for the year ended 31 March 2008.

MANYLION GWEINYDDOL

Gwybodaeth gyfeirio

Enw elusen: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
Rhif cofrestru elusen: 508301
Rhif cofrestru cwmni: 1212455
Swyddfa Gofrestredig a chyfeiriad gweithredol:
7a Stryd yr Eglwys
Y Trallwng
Powys
SY21 7DL

ADMINISTRATIVE DETAILS

Reference information

Charity Name: The Clwyd-Powys Archaeological Trust
Charity registration number: 508301
Company registration number 1212455
Registered Office and operational address:
7a Church Street
Welshpool
Powys
SY21 7DL

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Rheolir yr ymddiriedolaeth elusennol gan fwrdd o ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gweithredu fel cyfarwyddwyr y cwmni cyfyngedig. Gan nad oes gan y cwmni unrhyw gyfalaf cyfrannau, nid yw mater y cyfranddaliadau a ddelir gan y cyfarwyddwyr yn berthnasol. Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw, ym mis Ebrill, mis Gorffennaf a mis Medi 2007 ac ym mis Ionawr 2008.

Board of Trustees

The charitable trust is managed by a board of trustees who also act as directors of the limited company. As the company has no share capital, the question of shares held by the directors does not apply. The Trustees met on four occasions during the financial year in question, in April, July, and September 2007 and in January 2008.

Etholwyd yr Ymddiriedolwyr a ganlyn yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhaliwyd fis Medi 2007, a buont yn eu swyddi trwy gydol blwyddyn ariannol 2007/08:

Mrs Frances M Lynch Llewellyn (Cadeirydd)
Dr Jeffrey L Davies (Is Gadeirydd)
Mr David R Morgan
Mr Chris R Musson
Mr David W L Rowlands

The following Trustees were elected at the annual general meeting held in September 2007 and held office throughout the 2007/08 financial year:

Mrs Frances M Lynch Llewellyn (Chair)
Dr Jeffrey L Davies (Vice Chair)
Mr David R Morgan
Mr Chris R Musson
Mr David W L Rowlands

Pwyllgor Ymgynghorol ac Aelodau

Cyfarfu Pwyllgor Ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys yr Ymddiriedolwyr, aelodau eraill y mae'r Ymddiriedolwyr wedi'u cyfethol, a sylwedydd y mae Cadw wedi'i enwebu, ar ddau achlysur yn ystod y flwyddyn, ym mis Ebrill a mis Medi 2007. Gwahoddir enwebiadau ar gyfer aelodaeth yr Ymddiriedolaeth oddi wrth awdurdodau lleol, amgueddfeydd, cymdeithasau hanesyddol ac archaeolegol lleol, a chyrff eraill sydd â diddordeb yn amgylchedd hanesyddol Cymru. Fel rheol, bydd yr aelodau'n cyfarfod unwaith y flwyddyn yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Ceir rhestr o'r aelodau ac aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/08, neu ran o'r cyfnod hwnnw, ar dudalennau 11–12.

Advisory Committee and Members

The Trust's Advisory Committee, comprising the Trustees, other members co-opted by the Trustees, and an observer nominated by Cadw, met on two occasions during the year, in April and September 2007. Nominations for membership of the Trust is by invitation, members being drawn from local authorities, museums, local historical and archaeological societies and other bodies with interests in the historic environment of Wales. Members normally meet once a year at the annual general meeting. A list of members and of members of the Advisory Committee during all or part of the 2007/08 financial year is given on pages 11–12.

Tîm Uwch Reolwyr

Rhoddir rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd yng ngofal

Senior Managment Team

The day-to-day management of the organisation is

tîm uwch reolwyr sy'n cynnwys Mr W J Britnell (Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth), Mr R J Silvester (Dirprwy Gyfarwyddwr), Mr C H R Martin (Pennaeth Gwasanaethau Curadurol) a Mrs J E Britnell (Swyddog Gweinyddol).

Staff, cynghorwyr a'r defnydd o wirfoddolwyr

Ceir aelodau eraill o staff ac enwau a chyfeiriadau'r rheiny sy'n gweithredu fel cyfrifwyr, archwilwyr, cyfreithwyr a bancwyr ar dudalennau 11-12. Mae'r Ymddiriedolaeth yn annog defnyddio gwirfoddolwyr mewn prosiectau swyddfa a phrosiectau yn y maes fel ei gilydd, yn unol â pholisi sydd â'r nod o greu cyn lleied o gystadleuaeth annheg â phosibl â chyrff eraill.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

Dogfen Lywodraethu

Cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant yw'r Ymddiriedolaeth, a ymgorfforwyd ar 14 Mai 1975 ac a gofrestrwyd fel elusen ar 4 Ionawr 1979. Sefydlwyd y cwmni dan femorandwm cymdeithasiad a sefydlodd amcanion a grymoedd y cwmni elusennol, ac erthyglau cwmni'r memorandwm hwn sy'n ei lywodraethu. Newidiwyd *Memorandum and Articles of Association* yr Ymddiriedolaeth drwy gytundeb arbennig fis Hydref 1978, mis Tachwedd 1983 a mis Medi 2001. Pe byddai'r cwmni'n cael ei ddirwyn i ben fe fyddai gofyn i aelodau gyfrannu swm o £1 ar y mwyaf.

Penodi Ymddiriedolwyr, a'u cyfrifoldeb

Bydd Aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ethol yr Ymddiriedolwyr. Manylir ar hawliau, dyletswyddau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr a mater hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer Ymddiriedolwyr yn *Memorandum of Trustees' Responsibilities and Duties* yr Ymddiriedolaeth.

Adolygu Risg

Mae'r risgiau o bwys y mae'r elusen yn agored iddynt, fel y'u nodwyd gan yr Ymddiriedolwyr, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae systemau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu i reoli'r risgiau hynny.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Prif weithgareddau a maes gweithredu

Manylir ar brif amcan yr Ymddiriedolaeth yn ei *Memorandum of Association*, sef addysg y cyhoedd mewn archaeoleg. Un o'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru yw'r Ymddiriedolaeth, sy'n cydweithio'n agos â chyrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac aelodau o'r cyhoedd er mwyn cynorthwyo i gofnodi, ymchwilio, dehongli a diogelu pob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu'n bennaf yn ardal Clwyd-Powys yng nghanolbarth a gogledd-ddwyrain Cymru, sef ardaloedd siroedd modern Powys, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a rhan ddwyreiniol Conwy, er ei bod hefyd yn cynnal gwaith prosiect mewn siroedd cyfagos eraill yng Nghymru a Lloegr o bryd i'w gilydd.

entrusted to a senior management team comprising Mr W J Britnell (Trust Director), Mr R J Silvester (Deputy Director), Mr C H R Martin (Head of Curatorial Services) and Mrs J E Britnell (Administrative Officer).

Staff, advisors and the use of volunteers

Other staff members and the names and addresses of those acting as accountants, auditors, solicitors and bankers are given on pages 11–12. The Trust encourages the use of volunteers in both office and field-based projects, in accordance with a policy which seeks to minimise unfair competition with other bodies

STRUCTURE, GOVERNANCE AND MANAGEMENT

Governing Document

The Trust is a charitable company limited by guarantee, incorporated on 14 May 1975 and registered as a charity on 4 January 1979. The company was established under a memorandum of association which established the objects and powers of the charitable company and is governed under its articles of association. The Trust's *Memorandum and Articles of Association* have been amended by special resolution in October 1978, November 1983 and September 2001. In the event of the company being wound up members are required to contribute an amount not exceeding £1.

Appointment of and responsibility of Trustees

Trustees are elected by Members of the Trust. The rights, duties responsibilities of Trustees and the issue of induction training for Trustees is set out in the Trust's *Memorandum of Trustees' Responsibilities and Duties*.

Risk Review

The major risks to which the charity is exposed, as identified by the Trustees, are regularly reviewed and systems and procedures have been established to manage those risks.

OBJECTIVES AND ACTIVITIES

Principal activity and area of operation

The principal object of the Trust as set out in its *Memorandum of Association* is the education of the public in archaeology. The Trust is one of the four Archaeological Trusts in Wales which work closely with national, regional and local bodies and members of the general public to help record, research, interpret and protect all aspects of the historic environment. The Trust's primary sphere of activity is in the Clwyd-Powys area of mid and north-east Wales covered by the modern counties of Powys, Denbighshire, Flintshire, Wrexham and the eastern part of Conwy, though it also carries out project work in other adjacent counties in England and Wales from time to time.

GWEITHGAREDDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF

Mesur cyflawniadau a pherfformiad

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud ar ffurf gwasanaethau neu brosiectau sy'n derbyn grantiau oddi wrth gyrff y sector cyhoeddus, neu brosiectau a wneir i gyflawni contract masnachol â'r sector preifat. Cwblheir y gwaith hwn yn gyffredinol yn unol â nodau ac amcanion sydd wedi'u dogfennu. Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu perfformiad a chyflawniad targedau, a bydd y tîm uwch reolwyr yn eu monitro'n fewnol yn rheolaidd tra bydd cleientiaid a chyrff sy'n dyfarnu grantiau'n eu monitro'n allanol.

Ymchwilio ac archwilio archaeolegol

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ymgymryd ag amrywiaeth eang o brosiectau yn y maes, fel rheol naill ai mewn ymateb i ddatblygiadau arfaethedig a allai effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol neu er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r gorffennol. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae prosiectau wedi cynnwys cloddiadau adfer, cofnodi adeiladau, asesiadau pen-bwrdd, gwerthusiadau maes, arolygon maes a chynlluniau goruchwylio. Rhoddir enghreifftiau isod o'r mathau o brosiectau yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn. Defnyddir enwau'r hen siroedd ym Mhowys, sef Sir Frycheiniog, Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn er hwylustod.

Ariannwyd y prosiectau a ganlyn, y mae rhai ohonynt yn parhau o flynyddoedd ariannol blaenorol, gan Cadw yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'r rhaglen hir sefydlog o asesiadau sy'n ymwneud â bygythiadau y mae'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru yn ymgymryd â hwy.

Safleoedd Angladdol a Defodol Cyn-hanesyddol Roedd y prosiect hwn yn cynnwys sawl elfen wahanol yn ystod 2007-08. Roedd rhaglen o arolygon maes yn ystod haf 2007 yn cynnwys arolygon mesuredig o gylchoedd cerrig Crugiau Bach a Llorfa, yn uwchdiroedd Brycheiniog. Hefyd yn ystod yr haf, cynhaliwyd arolygon geoffisegol a gwaith cloddio arbrofol yng nghylchoedd pren a hengor Meusydd ger Llanrhaeadr-ym-Mochnant yng ngogledd Sir Drefaldwyn. Parhaodd gwaith dadansoddol trwy gydol y flwyddyn ym Mhrifysgol Bradford yn dilyn gwaith cloddio 2006 yn hengor Dyffryn Lane, y Trallwng.

Tirweddau Hanesyddol Ymgymerwyd â'r gwaith o nodweddu'r dirwedd hanesyddol yn ardaloedd Dwyrain Fforest Fawr a Mynydd y Glog, sy'n gorwedd ar ochr ddeheuol Bannau Brycheiniog. Prif ddiddordeb ardal y dirwedd hanesyddol hon yw'r olion helaeth o anheddu creiriol, a thystiolaeth o ddefnydd tir o amgylch yr ymyl uwchdirol sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng Oes yr Efydd a dechrau'r cyfnod canoloesol. Cynhyrchwyd taflen ddwyieithog ar dirwedd hanesyddol Canol Dyffryn Wysg, a hefyd gosodwyd tudalennau gwe dwyieithog am dirweddau hanesyddol Caersws a Chlywedog, a astudiwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

ACTIVITIES DURING THE PAST YEAR

Measuring achievements and performance

Most of the work undertaken by the Trust takes the form of services or projects grant-aided by public sector bodies, or of projects undertaken in fulfilment of a commercial contract with the private sector. This work is generally carried out in accordance with documented aims and objectives. Performance and the achievement of targets are reviewed by the Board of Trustees and regularly monitored internally by the senior management team and externally by grant awarding bodies and clients.

Archaeological research and investigation

The Trust continued to undertake a wide variety of projects in the field, usually either in response to proposed developments which might have an impact upon the historic environment or in order to enhance our understanding of the past. As in previous years projects have included rescue excavations, building recording, desktop assessments, field evaluations, field surveys and watching briefs. Examples of the types of project which were undertaken during the course of the year are given below, where for convenience the names of the former counties of Brecknock, Radnor and Montgomery in Powys are used.

The following projects, some of which continued from previous financial years, were funded by Cadw during the course of the year as part of the long-standing programme of threat-related assessments being undertaken by the four Welsh Archaeological Trusts.

Prehistoric Funerary and Ritual Sites This project consisted of a number of different elements during 2007-08. A programme of field survey during the summer of 2007 included measured surveys of the Crugiau Bach and Llorfa stone circles, both in the uplands of Brecknock. Also during the summer geophysical survey and trial excavation were carried out at the Meusydd henge and timber circles near Llanrhaeadr-ym-Mochnant in northern Montgomeryshire. Analytical work continued throughout the year at the University of Bradford following the 2006 excavations at the Dyffryn Lane henge, Welshpool.

Historic Landscapes Historic landscape characterization was undertaken in the East Fforest Fawr and Mynydd y Glog areas, lying on the southern flank of the Brecon Beacons. The principle interest of this historic landscape area is the widespread remains of relict settlement and evidence of land-use around the upland fringe dating to the period between the Bronze Age and the early medieval period. A bilingual leaflet was produced on the Middle Usk Valley historic landscape and bilingual web pages about the Caersws and Clywedog historic landscapes studied in the previous year were also posted on the Trust's website.

Safleoedd Milwrol Rhufeinig Mae staff CPAT wedi paratoi testunau a darluniau ar rai o'r prif geyrydd a *vici* ym Mhowys ar gyfer fersiwn diwygiedig o *Roman Frontier in Wales* sydd ar droed. Gwnaethant hefyd ddrafftio testun rhagarweiniol ar system y ffyrdd Rhufeinig yng Nghymru ar ei gyfer, a chymhathu cofnodion ar gyfer gazetteer Cymru gyfan o ffyrdd Rhufeinig. Ym mis Medi 2007, gwnaed gwaith cloddio archwiliadol yn amgylchoedd y gaer Rufeinig ym Mhen-y-gaer, ger Crucywel ym Mrycheiniog, i asesu canlyniadau'r arolwg geoffisegol o 2006 a awgrymodd strwythurau dan y ddaear. Cyfyngwyd y gwaith cloddio i lanhau a chofnodi arwyneb uchaf y dyddodion Rhufeinig. Daethpwyd o hyd i dystiolaeth o beth allai fod wedi bod yn weithdai a chwrt. Bu'r gwaith cloddio'n boblogaidd â thrigolion lleol ac aelodau dwy gymdeithas hanesyddol leol. Bu grŵp o blant o'r ysgol gynradd gerllaw yn ymweld â'r safle i ategu'r addysg gyffredinol roeddent wedi'i chael ar feddiannaeth y Rhufeiniaid ar Brydain.

Llociau Amddiffynedig I bob pwrpas, daeth rhaglen hirdymor o asesu'r llociau cynhanesyddol diweddarach a llociau'r Brythoniaid Rhufeinig yng nghanolbarth a gogledd-ddwyrain Cymru i ben. Prif ran y rhaglen oedd gwella'r cofnod ar gyfer ardaloedd o Sir Drefaldwyn a gogledd-ddwyrain Cymru lle roedd gwaith maes yn y 1990au cynnar naill ai'n ddetholus, neu lle mae safleoedd eraill wedi'u nodi o'r awyr ers hynny. Cynhaliwyd arolwg geoffisegol ar 8 safle yn Sir Drefaldwyn fel rhan o raglen barhaus i wella gwybodaeth am ymgeiswyr posibl ar gyfer eu rhestru. Mae dau o uwch staff yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi cyfrannu at gyfrol sydd ar y gweill am lociau amddiffynedig yng Nghymru, gyda thestun ar y llociau amddiffynedig ar y Gororau.

Cytiau Crwn ym Mrycheiniog Yn 2007/08, cwblhawyd y rhaglen dwy flynedd o asesu pen-bwrdd ac archwiliadau maes o safleoedd cytiau crwn ym Mrycheiniog, at ddibenion gwella rhestru. Dros y ddwy flynedd, gwiriwyd cofnodion mwy na 400 safle yn y maes, er i nifer sylweddol o'r ymweliadau hyn gadarnhau bod yna gryn orymylu a dyblygu yn y cofnod sy'n bodoli.

Ffatri Fwyeill Cwm Mawr Fe geisiodd arolwg a gwaith cloddio arbrofol ar ddiwedd haf 2007 gadarnhau ffynhonnell grŵp o fwyeill rhyfel a bwyeill morthwyl o Oes yr Efydd. Mae'r gwrthrychau cerrig trwm hyn wedi'u gwneud o bicrit, sef math unigryw o graig sydd â gwasgariad cyfyngedig iawn. Mae un o'r brigiadau y gwyddys amdanynt ar fryn bach ger Cwm Mawr ger Hyssington yn nwyrain Sir Drefaldwyn. Cynhaliwyd arolwg maes systematig yn cwmpasu ardal y brigiad er mwyn dynodi a chofnodi safleoedd a all fod yn gysylltiedig â'r ffatri fwyeill dybiedig. Methodd arolwg magnetomedr o ddau safle chwarel posibl â rhoi tystiolaeth o weithgareddau echdynnu neu anheddu. Dangosodd gwaith cloddio dau grafbant chwarel bach dystiolaeth o chwarelu ar raddfa fach, ond methodd â rhoi unrhyw ddeunydd dyddiadwy.

Y Rhufeiniaid yng Nghanolbarth Cymru Gydag ariannu oddi wrth CyMAL, Cadw a Chyngor Sir Powys, gwnaeth CPAT baratoi arddangosfa â'r teitl 'Y Rhufeiniaid yng

Roman Military Sites CPAT staff have prepared texts and illustrations on some of the major forts and *vici* in Powys for the forthcoming revision of the *Roman Frontier in Wales*; for which they also drafted an introductory text on the Roman road system in Wales and correlated entries for the pan-Wales gazetteer of Roman roads. In September 2007 an exploratory excavation was undertaken in the environs of the Roman fort at Pen-y-gaer, near Crickhowell in Brecknock, to assess the geophysical survey results from 2006 which suggested below-ground structures. Excavation was restricted to the cleaning and recording of the upper surface of the Roman deposits. Evidence for what might have been workshops and a courtyard was found. The excavations proved popular with local residents and members of two local historical societies. A group of children from the nearby primary school visited the site to complement the general teaching they had received on the Roman occupation of Britain.

Defended Enclosures This year effectively marked the completion of a long-term programme of assessment of the later prehistoric and Romano-British enclosures of central and north-eastern Wales. The main part of the programme was the enhancement of the record for areas of Montgomeryshire and north-east Wales where fieldwork in the early 1990s was either selective or where further sites have since been identified from the air. Geophysical survey was carried out on 8 sites in Montgomeryshire as part of a continuing programme to enhance information about possible candidates for scheduling. Two of the Trust's senior staff have also contributed to a forthcoming volume on Welsh defended enclosures with a text on the defended enclosures in the Welsh borderlands.

Round Huts in Brecknock The two-year programme of desk-top assessment and field examination of round hut sites in Brecknock was completed in 2007/08 for the purposes of scheduling enhancement. Over the two years the records of more than 400 sites were checked in the field, though a significant number of these visits confirmed that there was considerable overlap and duplication in the existing record.

Cwm Mawr Axe Factory Survey and trial excavation in the late summer of 2007 attempted to confirm the source of a group of Bronze Age battle axes and axe hammers. These heavy stone objects are made from picrite, a distinctive rock type which has a very limited distribution, with one of the known outcrops being a small hill near Cwm Mawr near Hyssington in eastern Montgomeryshire. Systematic field survey covering the area of the outcrop was undertaken to identify and record sites potentially associated with the presumed axe factory. Magnetometer survey of two possible quarry sites failed to produce evidence for occupation or extraction activity. Excavation of two small quarry scoops showed evidence of small-scale quarrying but failed to produce any dateable material.

The Romans in Mid Wales With funding from CyMAL, Cadw and Powys County Council, CPAT prepared an exhibition entitled 'The Romans in Mid Wales' as a joint

Nghanolbarth Cymru', fel menter ar y cyd ag Amgueddfa Powysland yn y Trallwng. Bellach, mae cyfres o baneli arddangos dwyieithog yn ffurfio rhan o arddangosfa deithiol a fydd yn mynd ar daith i leoliadau amrywiol yng nghanolbarth Cymru. Mae model rhithwir o safleoedd Rhufeinig ac Oes yr Haearn yng Nghaersws a'r cyffiniau yn rhan o arddangosfa barhaol yr amgueddfa.

venture with the Powysland Museum in Welshpool. A series of bilingual display panels now form part of a travelling exhibition which is to tour various venues in mid Wales. A virtual reality model of Roman and Iron Age sites in and around Caersws forms part of the museum's permanent display.

Carnedd Oes yr Efydd yn Llanelwedd Cloddiwyd un o ddwy garnedd claddu a oedd dan fygythiad o ganlyniad i estyniad i Chwarel Hanson, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt yn llawn ar ddiwedd tymor yr hydref 2007. Gwnaed hyn gydag ariannu oddi wrth Gronfa Ardoll Agregau Cynaliadwy Cymru a Cadw. Bu'r garnedd yn destun archwilio hynafiaethol (ym 1906 mae'n debyg), ond datgelwyd manylion pensaernïol diddorol a pheth tystiolaeth dyddio. Mae'n debyg bod y garnedd wreiddiol yn benfflat, gydag ymylfeini o tua 25 o slabiau carreg unionsyth. Roedd un capfaen mawr wedi'i osod ar ben y gist gladdu ganolog.

Llanelwedd Bronze Age Cairn With funding from the Aggregates Levy Sustainability Fund for Wales and Cadw, one of two burial cairns threatened by an extension to Hanson's Llanelwedd Quarry, Builth Wells, was fully excavated the late autumn of 2007. The cairn had been subject to antiquarian investigation (probably in 1906) but interesting architectural details and some dating evidence were brought to light. The original cairn had probably been flat-topped and kerbed by some 25 upright stone slabs. The central burial cist had been topped by a single large capstone.

Cynhaliwyd sawl prosiect arall yn ystod 2007/08, wedi'u hariannu o amryw o ffynonellau, ac roeddent yn cynnwys asesiadau pen-bwrdd ac arolygon adeiladau a henebion. Cafwyd arian oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gefnogi arolwg adeiladau manwl ac arolwg radar daear-dreiddiol yn **Yr Hen Danerdy**, Machynlleth, cyn iddo gael ei drosi'n galeri a storfa newydd ar gyfer yr Amgueddfa Celfyddyd Fodern. Fe wnaeth grant oddi wrth Gymdeithas Hynafiaethau Cymru ariannu gwaith arolwg geoffisegol gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd a CPAT yn y gynharaf o'r ddwy gaer yng **Nghaersws**, Sir Drefaldwyn. Hefyd, ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth â thri phrosiect ar gyfer y Stadau Amddiffyn: astudiaeth gwmpasu o ymchwil ac asesu, yn canolbwyntio ar yr adeiladau o'r 1940au yng ***Ngwersyll Pont Senni***; gwaith cofnodi adeiladau yn ***Fferm Spite Inn*** yn Ardal Hyfforddi Pont Senni; ac ymarfer nodweddu hanesyddol dros ran o ***Fynydd Epynt***, eto yn Maes Pont Senni. Roedd gwaith adfer i gasebo yng ngerddi ***Tŷ Nantclwyd***, Rhuthun, yn cynnwys arolwg o'r adeilad wedi'i ddarlunio'n fanwl ac wedi'i ariannu gan Gyngor Sir Ddinbych. Fe wnaeth Cymdeithas Ddinesig Yr Wyddgrug gomisiynu adroddiad ar hanes y castell cloddwaith yn ***yr Wyddgrug***.

Many other projects were undertaken during 2007/08, variously funded and including desktop assessments and building and monument surveys. Heritage Lottery funding supported a detailed building survey and ground-penetrating radar survey at ***Yr Hen Danerdy***, Machynlleth, prior to its conversion into a new gallery and store for the Museum of Modern Art. A grant from the Cambrian Archaeological Association funded geophysical survey work by the Gwyedd Archaeological Trust and CPAT at the earlier of the two forts at ***Caersws***, Montgomeryshire. The Trust also undertook three projects for the Defence Estates: a scoping study of research and assessment focusing on the 1940s buildings in ***Sennybridge Camp***; building recording at ***Spite Inn Farm*** within the Sennybridge Training Area; and an historic characterisation exercise over part of ***Mynydd Epynt***, again within the Sennybridge Range. Restoration works to a gazebo in the gardens of ***Nantclwyd House***, Ruthin, included a detailed drawn survey of the building, funded by Denbighshire County Council. Mold Civic Society commissioned a report on the history of the earthwork castle at ***Mold***.

Mewn cysylltiad â chynigion cynllunio, ymgymerwyd â nifer fawr o gloddiadau gwerthuso, cynlluniau goruchwylio, arolygon adeiladau ac astudiaethau pen-bwrdd yn ystod 2007/08. Roedd y rhain yn cynnwys gwaith cloddio a ariennir gan ddatblygwr ym ***Metws-yn-Rhos*** yng Nghonwy, a ddatgelodd darganfyddiadau a nodweddion Neolithig, yn ogystal ag odyn galch fach gron sy'n dyddio o ddechrau'r cyfnod canoloesol. Ymgymerwyd â phrosiectau desg a phrosiectau eraill yn y maes cyn gwelliannau i linellau cyflenwi dŵr a thrydan, ac mewn ardaloedd o ddatblygiadau ffermydd gwynt arfaethedig.

In connection with planning proposals, a large number of evaluation excavations, watching briefs, building surveys and desktop studies were undertaken during 2007/08. These included developer-funded excavations in ***Bettws-yn-Rhos*** in Conwy, which uncovered Neolithic features and finds as well as a small circular lime kiln dated to the early medieval period. Other desk and field-based projects were undertaken in advance of improvements to water and electricity supply lines and within areas of proposed windfarm development.

Parhaodd staff yr Ymddiriedolaeth i eistedd ar banel Sicrhau Ansawdd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer agwedd tirwedd hanesyddol ***LANDMAP***.

Staff of the Trust contined to sit on Countryside Council for Wales's Quality Assurance panel for the historic landscape aspect of ***LANDMAP***.

Addysg ac allgymorth

Roedd mentrau addysg ac allgymorth yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn yn cynnwys staff yn rhoi o'u hamser yn Erddig, Wrecsam, yn ystod ***Wythnos Archaeolegol Genedlaethol 2007*** Cyngor Archaeoleg Prydain, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Clwb Archaeolegwyr Ifanc Wrecsam a'r Cylch a grŵp hanes byw canoloesol cynnar Cwmwd Iâl. Yn ystod mis Gorffennaf, rhoddwyd blas ar waith maes archaeolegol i dri myfyriwr TGAU yn ystod eu hwythnos ***profiad gwaith***, ac roedd staff yr Ymddiriedolaeth yn bresennol yn y Babell Gwyddoniaeth a Thechnoleg trwy gydol wythnos yr ***Eisteddfod Genedlaethol*** yn yr Wyddgrug.

Mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi dechrau cynhyrchu cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn sy'n edrych ar ychydig o'r gwaith a wna'r Ymddiriedolaeth. Anfonir y rhain drwy'r post at tua 150 o gymdeithasau treftadaeth lleol a sefydliadau tebyg, ac maent hefyd ar gael ar ffurf PDF trwy wefan yr Ymddiriedolaeth (**www.cpat.org.uk**).

Diweddarwyd y wefan yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ychwanegu tudalennau gwe dwyieithog ar gyfer ***Tirweddau Hanesyddol Caersws a Chlywedog***, a chynnal ***Cronfa Ddata o Ddigwyddiadau Allgymorth*** yn cynnwys gwybodaeth am deithiau cerdded a sgyrsiau gan staff CPAT. Roedd ***teithiau cerdded ac ymweliadau â safleoedd*** â thema hanesyddol ac archaeolegol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys teithiau yng Nghwm Elan a Bannau Brycheiniog, a theithiau cerdded o amgylch y Trallwng hanesyddol. Bu aelodau o'r staff hefyd yn rhoi sgyrsiau ar amrywiaeth eang o bynciau archaeolegol a hanesyddol i grwpiau a chymdeithasau lleol yn ystod y flwyddyn.

Cynhyrchwyd cyfanswm o 60 (2006/07: 77) o adroddiadau prosiect a themâu yn ystod y flwyddyn, i'w dosbarthu i restr gyfyngedig o bobl. Mae adroddiadau cryno ac adroddiadau hirach ar brosiectau unigol a gyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn ymddangos yn *Archaeology in Wales*, a gyhoeddir yn flynyddol gan Gyngor Archaeoleg Prydain Wales/Cymru. Ymhlith cyhoeddiadau y cyfrannodd aelodau o'r staff atynt yn ystod y flwyddyn oedd Adroddiad Ymchwil Cyngor Archaeoleg Prydain ar ***safleoedd Mesolithig Prestatyn***, adroddiad ar ***safleoedd angladdol a defodol cynhanesyddol yn Sir Frycheiniog***, a gyhoeddwyd ym *Mrycheiniog*, ac erthyglau ar archaeoleg tirwedd mewn dau fonograff – *Estate Landscapes*: *Design, Improvement and Power in the Post-Medieval Landscape*, ac yn *Post-Medieval Landscapes, Landscape History after Hoskins.*

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fynd ati i chwarae rhan yng ngwaith nifer o gymdeithasau a grwpiau hanesyddol ac archaeolegol lleol a chenedlaethol.

Cyngor a gwybodaeth archaeolegol

Gyda chymorth ariannol y Comisiwn Brenhinol a Cadw, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal cofnod dynamig o safleoedd, darganfyddiadau, adeiladau hanesyddol ac ardaloedd o bwysigrwydd archaeolegol, sef ***Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Clwyd-Powys*** (CAH), sy'n cwmpasu Powys, dwyrain Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint

Education and outreach

Education and outreach initiatives undertaken during the year included a rewarding input of staff time at Erddig, Wrexham during the Council for British Archaeology's ***National Archaeology Week 2007***, in partnership with the National Trust, the Wrexham and District Young Archaeologists Club and Cwmwd Iâl early medieval living history group. During July three GCSE students were given a taste of archaeological fieldwork during their ***work experience*** week, and Trust staff were present in the Science and Technology Pavilion throughout the week of the ***National Eisteddfod*** at Mold.

The Trust has now begun to produce a twice-yearly newsletter looking at some of the work carried out by the Trust – these are posted out to some 150 local heritage societies and similar organizations and is also available in PDF form through the Trust's website (**www.cpat.org.uk**).

The website was regularly updated during the year, including the addition of bilingual webpages for the ***Clywedog and Caersws Historic Landscapes*** and the maintenance of an ***Outreach Events Database*** of information on walks and talks by CPAT staff. Historically and archaeologically themed ***walks and site visits*** during the year included excursions in the Elan Valley and the Brecon Beacons and walks around historic Welshpool. Staff members also gave talks on a wide variety of archaeological and historical topics to local groups and societies during the year.

A total of 60 (2006/07: 77) project and topic reports were produced during the year for limited circulation. Summary and longer reports on individual projects undertaken by the Trust appear in *Archaeology in Wales*, published annually by the CBA Wales/Cymru. Publications to which staff members contributed during the year included the CBA Research Report on the ***Prestatyn Mesolithic sites***, a report on ***prehistoric funerary and ritual sites in Breconshire*** published in *Brycheiniog*, and articles on landscape archaeology in two monographs – *Estate Landscapes: Design, Improvement and Power in the Post-Medieval Landscape*, and in *Post-Medieval Landscapes, Landscape History after Hoskins.*

The Trust continues to be actively involved in the work of a number of local and national historical and archaeological societies and groups.

Archaeological advice and information

With the help of funding from the Royal Commission and Cadw the Trust continues to maintain a dynamic record of sites, finds, historic buildings and areas of archaeological importance known as the ***Clwyd-Powys Historic Environment Record*** (HER), covering Powys, eastern Conwy, Denbighshire, Flintshire, and Wrexham.

a Wrecsam. Prif amcanion y cofnod yw darparu cyngor ar oblygiadau archaeolegol polisïau a datblygiadau cynllunio, a chyngor ar reoli safleoedd a thirweddau archeolegol. Mae hefyd yn ffynhonnell ar gyfer mentrau sy'n ymwneud â chadwraeth, dehongli a chyflwyno amgylchedd hanesyddol ein hardal ni o Gymru. Ychwanegir gwybodaeth newydd bob blwyddyn o brosiectau gwaith maes diweddar ac o ffynonellau sydd wedi'u cyhoeddi a rhai nad ydynt wedi'u cyhoeddi.

The main objectives of the record are to provide advice about the archaeological implications of planning policies and developments, about the management of archaeological sites and landscapes, and to serve as a resource for initiatives concerning the preservation, interpretation and presentation of the historic environment of our area of Wales. New information is added every year from recent fieldwork projects and from published and unpublished sources.

Mae'r holl awdurdodau cynllunio yn ardal Clwyd-Powys – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – wedi mabwysiadu'r CAH at ddibenion cynllunio. Gyda chymorth ariannol oddi wrth Cadw fe ymatebodd CAH i 7,888 o ymholiadau mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn. Mae'n parhau i gael ei ddefnyddio ar sail o ddydd i ddydd yn bennaf ar gyfer rheoli datblygiad, y Cynllun Coetiroedd Gwell a Thir Gofal, ond mae hefyd wedi darparu gwybodaeth i ymchwilwyr preifat, contractwyr ac ymgynghorwyr archaeolegol, ac aelodau o'r cyhoedd. Hefyd, parhawyd â'r gwaith yn ystod y flwyddyn ar ddatblygu thesawrws Cymraeg o dermau archaeolegol ar y cyd â'r Comisiwn Brenhinol a phartneriaid eraill.

The HER has been adopted for planning purposes by all the planning authorities in the Clwyd-Powys area — Brecon Beacons National Park, Conwy County Borough Council, Denbighshire County Council, Flintshire County Council, Powys County Council, and Wrexham County Borough Council. With financial assistance from Cadw the HER responded to 7,888 internal and external enquiries during the year. It continues to be used on a day-to-day basis principally for development control, the Better Woodlands Scheme and Tir Gofal, but it has also provided information to private researchers, archaeological contractors, consultants and members of the general public. Work also continued during the year on the development of a Welsh thesaurus of archaeological terms in conjunction with the Royal Commission and other partners.

Ym mis Ionawr 2008, yn dilyn ymgynghori â Cadw a'r Comisiwn Elusennau, fe wnaeth yr Ymddiriedolwyr Ddatganiad o Ymddiriedaeth i sefydlu ***Ymddiriedolaeth Elusennol CAH Clwyd-Powys.*** Gwnaethant hefyd dderbyn ymddiriedolaeth gorfforaethol o'r elusen newydd hon, a chymeradwyo trosglwyddo'r Cofnod o'r Amgylchedd Hanesyddol iddi.

In January 2008, following consultation with Cadw and the Charity Commission, the Trustees made a Declaration of Trust establishing ***The Clwyd-Powys HER Charitable Trust***. They also accepted corporate trusteeship of this new charity and approved the transfer of the Historic Environment Record to it.

Gyda chymorth ariannol Cadw, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Powys, fe barhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddarparu cyngor ***Rheoli Datblygiad*** ar bob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol ledled ardal Clwyd-Powys. Daw ymgynghoriadau o du awdurdodau cynllunio lleol a chenedlaethol, datblygwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat a sefydliadau lleol a chenedlaethol eraill. Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd gwybod i'r Ymddiriedolaeth am 7,162 (2006/07: 7,748) cais cynllunio, yn ogystal ag ymgynghoriadau ar gynigion heb fod yn ymwneud â chynllunio, er enghraifft cynigion ynghylch cynlluniau priffyrdd a cheisiadau i gloddio am fwynau. Gwiriwyd pob un i weld a oedd yna unrhyw oblygiadau arwyddocaol o ran archaeoleg. Roedd y gwaith achos nodedig a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys monitro contractwyr archaeolegol ar lwybr y ***Biblinell Nwy rhwng Felindre a Tirley***. Roedd darganfyddiadau a nodweddion archaeolegol yn cynnwys cyfres o odynau neu ffyrnau clai dros dro, sawl darn o ffordd Rufeinig, tai crwn o Oes yr Haearn a safleoedd corfflosgi cynhanesyddol. Mewn mannau eraill, cloddiwyd Safle'r Farchnad Wartheg newydd arfaethedig yn ***Buttington Cross***, y Trallwng, gan ddatgelu'r hyn a oedd yn bydewau tân o bosibl. Roedd y rhain yn cynnwys golosg a darnau bach o esgyrn dynol wedi'u corfflosgi, sy'n gysylltiedig â thomen gladdu. Ym ***Mhentre Ffwrndan***, ger y Fflint, trwy dorri ffos bibellau ddofn, datgelwyd darn o ffordd Rufeinig, a sianel artiffisial

Helped by funding from Cadw, Brecon Beacons National Park, Conwy Borough Council, Flintshire County Council and Powys County Council the Trust continued to provide ***Development Control*** advice about all aspects of the historic environment throughout the Clwyd-Powys area. Consulations come from national and local planning authorities, public and private sector developers, and other local and national organisations. During the year the Trust was notified of 7,162 (2006/07: 7,748) planning applications, in addition to consultations on non-planning proposals such as highway scheme proposals and minerals applications, all of which were checked to see whether they had significant archaeological implications. Notable casework during the year included monitoring of archaeological contractors on the route of the ***Felindre to Tirley Gas Pipeline***: Archaeological features and finds included a series of clay clamp-ovens or kilns, a number of stretches of Roman road, Iron Age roundhouses and prehistoric cremation sites. Elsewhere, the proposed new Cattle Market Site at ***Buttington Cross***, Welshpool, was excavated, revealing apparent fire-pits containing charcoal and small fragments of human cremated bone associated with a burial mound. At ***Pentre Ffwrndan***, near Flint the cutting of a deep pipe-trench revealed a length of Roman road and a revetted artificial channel cut parallel to the Dee estuary again of Roman date. Excavations in advance of house-building was required

ag arwyneb, wedi'i thorri'n gyfochrog ag aber Afon Dyfrdwy, eto yn dyddio o gyfnod y Rhufeiniaid. Roedd gofyn cloddio cyn adeiladu tai yng nghnewyllyn canoloesol ***Trefaldwyn***, ***Rhaeadr*** a ***Maesyfed***, ac yn y *vicus* Rhufeinig yng ***Nghaersws***.

within the medieval core of ***Montgomery***, ***Rhayader*** and ***New Radnor*** and within the Roman *vicus* at ***Caersws***.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddarparu cyngor a gwybodaeth archaeolegol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ac i dirfeddianwyr mewn perthynas â cheisiadau i ***Tir Gofal***, y cynllun amaeth-amgylcheddol Cymru-gyfan. Darparodd yr Ymddiriedolaeth wybodaeth archaeolegol mewn ymateb i 35 (2006/07: 60) o geisiadau gan ffermydd i Dir Gofal yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ag ateb 85 o ymgynghoriadau adolygiadau pum mlynedd. Cynhaliwyd tri (2006/07: 13) ymweliad maes, gan gynhyrchu'r arolygon ac adroddiadau rheolaeth manylach ar ffermydd penodol.

Archaeological advice and information continued to be provided to the Countryside Council for Wales and to landowners in response to applications to ***Tir Gofal,*** the all-Wales agri-environment scheme. The Trust provided archaeological information in response to 35 (2006/07: 60) farm applications to Tir Gofal during the course of the year as well as replying to 85 five year review consultations. Three (2006/07: 13) field visits were made producing the more-detailed surveys and management reports on selected farms.

Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) Hyd ddiwedd 2007/08, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn 113 o ymgynghoriadau CGG. Lluniwyd deugain o adroddiadau astudio pen-bwrdd, ac ymwelwyd â 15 safle, er mwyn cynhyrchu arolygon ac adroddiadau rheolaeth manylach. Mae'r achosion wedi amrywio o goetiroedd bach iawn, ychydig hectarau o faint, i nifer o stadau mawr, fel coetiroedd Stad Mostyn yn Sir y Fflint, sy'n 240 hectar o faint.

The Better Woodlands for Wales (BWW) Up to the end of 2007/08 the Trust had received 113 BWW consultations. Forty desktop study reports were compiled and 15 sites were visited to produce more-detailed survey and management reports. Cases have ranged from very small woods of a few hectares to a number of large estates, such as the 240-hectare Mostyn Estate woodlands in Flintshire.

Roedd Gwaith ***Rheoli Treftadaeth*** yr ymgymerodd yr Ymddiriedolaeth ag ef ag arian oddi wrth Cadw'n cynnwys darparu cyngor cynllunio strategol, yn enwedig mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Unedol. Rhoddwyd cyngor archaeolegol mewn ymateb i lu o geisiadau datblygu y tu allan i'r system gynllunio. Roedd y llwyth achosion yn cynnwys ceisiadau Caniatâd Henebion Rhestredig; monitro effeithiolrwydd Polisi Cynllunio Cymru; Darpariaeth Gwasanaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Cyfarwyddyd Rheoli Datblygiad Interim Ffermydd Gwynt ym Mhowys; ymgynghoriad Rali Moduron; Cynlluniau Grant Coetiroedd; Cynlluniau Dylunio Coedwigoedd; cynlluniau cyfalaf a rheoli Asiantaeth yr Amgylchedd; cynlluniau Tir Cynnal; cynlluniau yr oedd amryw o gwmnïau gwasanaethau cyfleustodau'n eu cynnig, gan gynnwys Dŵr Cymru, Cwmni Dŵr Hafren-Trent a Chwmni Dŵr Wrecsam, MANWEB, SWALEC, MEB, Nwy Prydain/Transco a'r diwydiant mwynau; a cheisiadau cyfadrannol a gyflwynwyd i Bwyllgorau Ymgynghorol Esgobaethol Cymru yn ardal yr Ymddiriedolaeth. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd â staff y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i eistedd ar Gyd-Fwrdd Ymgynghorol Dyffryn Rhydymwyn, gan weithredu mewn rôl ymgynghorol o ran archaeoleg a hanes y safle. Mae staff hefyd wedi mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt Gwarchodfa Natur Leol Bryn Euryn, Pwyllgor Cyswllt Llwybr Clawdd Offa, Grŵp Llywio Cynllun Rheoli Traethlin a Chell Arfordirol Bae Lerpwl, Fforwm Ymgynghorol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Grwp Cyswllt Strwythurau Milwrol yr Ugeinfed Ganrif, Panel Archaeoleg Ddiwydiannol Cymru a Grwp Llywio Fframwaith Ymchwil Cymru.

Heritage Management Work undertaken by the Trust with funding from Cadw included the provision of strategic planning advice, particularly in relation to Unitary Development Plans. Archaeological advice was given in response to numerous development proposals outside the planning system. The case-load included Scheduled Ancient Monument Consent applications; monitoring the effectiveness of Planning Policy Wales; Brecon Beacons National Park Service Provision; Interim Development Control Guidance of Windfarms in Powys; Motor Rally consultation; Woodland Grant Schemes; Forestry Design Plans; Environment Agency capital and management schemes; Tir Cynnal schemes; schemes proposed by various utility companies including Welsh Water, Severn Trent Water and the Wrexham Water Company, MANWEB, SWALEC, MEB, British Gas/Transco and by the minerals industry; and faculty applications submitted to Welsh Diocesan Advisory Committees in the Trust's area. Regular liaison meetings were also held with staff of the Forestry Authority, the Environment Agency and the Countryside Council for Wales. The Trust continues to sit on the Joint Consultative Board for the Rhydymwyn Valley acting in an advisory capacity with regard to the archaeology and history of the site. Staff have also attended meetings of the Bryn Euryn Local Nature Reserve Liaison Committee, the Offa's Dyke Path Liaison Committee, the Liverpool Bay Coastal Cell and Shoreline Management Plan Steering Group, the Brecon Beacons National Park Advisory Forum, the Twentieth-Century Military Structures Liaison Group, the Welsh Industrial Archaeology Panel and the Research Frameworks for Wales Steering Group

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i ymwneud yn

The Trust also continues to be actively involved with the

weithredol â'r ***Cynllun Hynafiaethau Cludadwy*** yng Nghymru y mae Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru'n ei redeg, gan gofnodi darganfyddiadau newydd y mae aelodau'r cyhoedd yn dod â hwy i mewn. Yn ystod y flwyddyn, crëwyd 83 o gofnodion yng nghronfa ddata'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy (2006/07: 62). Mynychwyd sawl cyfarfod rhanbarthol, a rhoddwyd cychwyn i raglen o ymweliadau chwarterol â Chymdeithas Treftadaeth Wrecsam.

Portable Antiquities Scheme (PAS) in Wales, run by the National Museums Wales, recording new finds that are brought in by members of the public. During the year 83 records were created on the PAS database (2006/07: 62). Several regional meetings were attended and a programme of quarterly visits to the Wrexham Heritage Society was instigated.

Ym mis Ionawr 2008, penderfynodd yr Ymddiriedolwyr fwrw ymlaen â chaffael ***Bryngaer Oes yr Haearn Caer Digoll*** ar Gefn Digoll ger y Trallwng, â'r nod o sicrhau rheoli'r bryngaer a'i hamgylchoedd yn y tymor hir, er budd y cyhoedd. Mae'n debyg mai yn 2008/09 y byddai'r safle'n cael ei brynu.

In January 2008 the Trustees decided to proceed with the acquisition of the ***Beacon Ring Iron Age hillfort*** on Long Mountain near Welshpool, with the aim of ensuring the long-term management of the hillfort and its environs for the benefit of the general public. Purchase of the site would probably be undertaken in 2008/09.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Y sefyllfa ariannol gyfredol

Yr adnoddau clir a ddaeth i mewn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol oedd £54,410 (2006/07: £61,101), gan sicrhau balans cronedig o £443,024 (2006/07: £388,614) i'w ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn cynnwys Cronfeydd heb Gyfyngiad o £217,544 (sy'n cynnwys asedau sefydlog o £10,453), Cronfeydd Penodedig a grybwyllwyd uchod i hyrwyddo nodau'r elusen, sef £207,500, a chronfeydd cyfyngedig o £17,980 a neilltuwyd ar gyfer gwaith sy'n parhau i'r flwyddyn nesaf. Daeth y costau cefnogi sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i ymgymryd â gweithgareddau elusennol i 5.3% o gyfanswm y gwariant. Daeth costau llywodraethiant, sy'n cynnwys costau archwilio, costau cyfreithiol a chostau cyfarfodydd ymddiriedolwyr i 3.1% o gyfanswm y gwariant. Mae'r gwariant sy'n weddill yn cynrychioli'r gwariant elusennol uniongyrchol ar y gweithgareddau a ddisgrifiwyd uchod.

Cronfeydd penodedig

Mae cyfanswm o £202,500 (2006/07: £162,290) wedi'i neilltuo fel Cronfa Benodedig, fel a ganlyn (gweler nodyn 12 yn y cyfrifon): £180,000 i'r *Gronfa Swyddfeydd* (tuag at gost symud yn y pen draw); £3,000 i'r *Gronfa Addysg ac Allgymorth* (ar gyfer cynlluniau addysgol cyffredinol); £6,500 i'r *Gronfa Gyhoeddiadau* (i gynhyrchu cyhoeddiadau ar archaeoleg yn y dyfodol); £3,000 i'r *Gronfa Hyfforddi Staff*; a £10,000 tuag at waith gwella CAH.

Polisi ar gronfeydd wrth gefn

Cynhaliwyd arolwg o *Bolisi Cronfeydd Wrth Gefn* yr Ymddiriedolaeth sy'n nodi'r risgiau ariannol o bwys nad ydynt wedi'u hyswirio a allai beryglu gwaith yr Ymddiriedolaeth. Fe fydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i adeiladu cronfa weithiol wrth gefn ar gyfer 3 mis o wariant, ac yn adeiladu cronfa i ariannu'r diffyg yn y cynllun pensiwn y cyfeirir ato yn nodyn 9 yn y cyfrifon.

Prif ffynonellau ariannu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i dderbyn cymorth ariannol oddi wrth nifer o gyrff cenedlaethol gan gynnwys Cadw fel rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol yng Nghymru, Cyngor

FINANCIAL REVIEW

Current financial position

The net incoming resources at the end of the financial year were £54,410 (2006/07: £61,101), giving an accumulated balance of £443,024 (2006/07: £388,614) carried forward to the next financial year. This is made up of Unrestricted Funds of £217,544 (which includes fixed assets of £10,453), Designated Funds of £207,500 to further the aims of the charity as detailed above, and restricted funds of £17,980 committed to work continuing into the next year. Support costs which enable the Trust's charitable activities to be undertaken amounted to 5.3% of total expenditure. Governance costs, which include audit, legal costs and trustees' meetings costs amounted to 3.1% of total expenditure. The remaining expenditure represents direct charitable expenditure on the activities described above.

Designated funds

A total of £202,500 (2006/07: £162,290) is reserved as Designated Funds as follows (see note 12 to the accounts): £180,000 *Premises Fund* (towards the cost of eventual relocation); £3,000 *Education and Outreach Fund* (for general educational initiatives); £6,500 *Publications Funds* (for the production of future archaeological publications); £3,000 *Staff Training Fund*; and £10,000 towards HER enhancement work.

Policy on reserves

A review has been undertaken of the Trust's *Reserves Policy* which identifies the major uninsured financial risks which might jeopardise the work of the Trust. The Trustees will continue to build up a working reserve to cover 3 months of expenditure and to build up funds to finance the pension scheme deficit referred to in note 9 to the accounts.

Principal funding sources

The Trust continues to draw financial support from a number of national bodies, including Cadw as part of the Welsh Assembly Government, the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, the Countryside

Cefn Gwlad Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae Cadw'n parhau i gyfrannu tuag at gostau gweinyddol yr Ymddiriedolaeth, o fewn amodau cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Fudiadau'r Sector Gwirfoddol. Daw'r rhan fwyaf o weddill incwm yr Ymddiriedolaeth ar ffurf cymorth grant a dyfarniadau contract oddi wrth y sectorau cyhoeddus a phreifat. Neilltuir hwn bron yn gyfan gwbl ar gyfer darparu gwasanaethau archaeolegol ac ar gyfer prosiectau o fewn rhaglen waith flynyddol yr Ymddiriedolaeth.

Council for Wales and the National Museum Wales. Cadw continues to provide a contribution to the Trust's administrative costs, within the terms of the Welsh Assembly's Government's support for Voluntary Sector Organisations. Most of the remainder of the Trust's income comes in the form of grant aid and contract awards from the public and private sectors, and is almost exclusively designated for the provision of archaeological services and for projects within the Trust's annual programme of work.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn arbennig o ddyledus i Cadw a'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru am y cymorth grant y mae'n parhau i'w dderbyn er mwyn gallu cynnal rhaglen o brosiectau sydd wedi'u cymeradwyo. Roedd cyfanswm yr ariannu o'r ddau gorff hyn yn 62% (2006/06: 62%) o gyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn i'r Ymddiriedolaeth (gweler nodyn 2a yn y cyfrifon). Derbyniwyd grantiau sylweddol hefyd oddi wrth Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, a Chyngor Sir Powys i'w galluogi i gyflawni gwaith Rheoli Datblygiad ar eu rhan, gan ychwanegu at y cymorth grant a dderbyniwyd oddi wrth Cadw hefyd at y diben hwn. Derbyniwyd grantiau sylweddol eraill oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer asesiadau o amgylchedd hanesyddol ffermydd sy'n dod yn rhan o gynllun Tir Gofal, oddi wrth y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer rôl ymgynghorol debyg o ran rheoli coetiroedd, ac oddi wrth Gronfa Ardoll Agregau Cynaliadwy Cymru.

The Trust is particularly indebted for the grant aid which it continues to receive from both Cadw and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales in order to carry out a programme of approved projects. The funding from these two bodies jointly amounted to 62% (2006/07: 62%) of the Trust's total incoming resources (see note 2a to the accounts). Substantial grants were also received from the Brecon Beacons National Park, Conwy County Borough Council, Flintshire County Council and Powys County Council to enable it to carry out Development Control work on their behalf, supplementing grant aid also received from Cadw for this purpose. Other substantial grants were received from the Countryside Council for Wales and the Welsh Assembly Government for historic environment assessments of farms accepted into the Tir Gofal scheme, from the Forestry Commission for a similar advisory role with regard to the management of woodlands and from the Aggregates Levy Sustainability Fund for Wales.

AMCANION ALLWEDDOL AR GYFER Y FLWYDDYN SYDD AR DDOD

Nod yr Ymddiriedolaeth yw parhau â'r gweithgareddau a amlinellir uchod yn ystod y flwyddyn ariannol sydd ar ddod, cyn belled â bod trefniadau ariannu boddhaol ar waith. Bydd hyn yn cynnwys cynnal a datblygu'r amrywiol wasanaethau archaeolegol a nodir uchod yn barhaus, yn ogystal â llwyddo i gwblhau prosiectau yn y maes ac yn y swyddfa sy'n parhau i'r flwyddyn sydd ar ddod. Mae'r angen am le swyddfa amgen (y mae arian wedi'i neilltuo ar ei gyfer) yn parhau i fod yn broblem enbyd, ond nid yw'n debygol o gael ei datrys yn y tymor byr neu ganolig, yn ôl pob golwg. Rhagwelir y bydd *Meddalwedd Cofnodion o'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru* newydd yn gwella'r gwasanaethau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu darparu i'r gymuned yn sylweddol. Y disgwyl yw y bydd hwn yn cael ei gyflwyno yn ystod 2008/09, ac mae darpariaeth ariannol yn parhau ar ei gyfer. O ran materion ariannol, cytunwyd ar Gynllun Adfer â'r Rheolydd Pensiynau i wneud yr Ymddiriedolaeth yn llai agored i niwed o ran atebolrwydd y cynllun pensiwn.

KEY OBJECTIVES FOR THE COMING YEAR

The Trust aims to continue the activities outlined above in the coming financial year subject to satisfactory funding arrangements. This will include the continued maintenance and development of the various archaeological services noted above together with the successful completion of field- and office-based projects continuing into the coming year. The need for alternative accommodation (for which financial provision is made) continues to be a pressing issue but seems unlikely to be resolved in the short to medium term. It is anticipated that the services that the Trust provides to the community will be significantly enhanced by new *Welsh Historic Environment Records Software* which is expected to be introduced during t2008/09 and for which financial provision continues to be made. In terms of the financial affairs, a Recovery Plan was agreed with the Pension Regulator to lessen the Trust's exposure to pension scheme liability.

Trwy orchymyn Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

By order of the Board of Trustees

Mrs F M Lynch Llewellyn
Chairman of Trustees/Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
25 July 2008/25 Gorffennaf 2008

TRUSTEES, COMMITTEE MEMBERS, MEMBERS AND STAFF IN 2007/08

Trustees

Mrs Frances M Lynch Llewellyn, Chairman, *Bangor*
Dr Jeffrey L Davies, Vice Chairman, *Aberystwyth*
Mr Christopher R Musson, *Aberystwyth*
Mr David W L Rowlands, *Llanerfyl, Montgomeryshire*
Mr David Morgan, *Llanhamlach, Breconshire*

Advisory Committee

Professor Stephen H R Aldhouse-Green
Mr Kenneth S Brassil, *National Museums and Galleries of Wales*
Mr P Dorling, *Clyro, Brecknock*
Dr Emma Plunkett Dillon, *The National Trust*
Professor Dai Morgan Evans, *University of Chester*
Dr Jodie Lewis, *University of Worcester*
Mrs Fiona Gale, *Denbighshire County Council*
Mr Stephen Grenter, *Wrexham County Borough*
Mrs Hilary Malaws, *Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales*
Mr Edward G Parry, *Aberhafesp, Montgomeryshire*
Dr David Petts, *University of Chester*
Dr Sian Rees, *observer for Cadw*

Members of the Trust

Mrs S Cole, *Radnorshire Society*
Councillor G R Banks, *Powys County Council*
Miss E Bredsdorff, *Powysland Museum*
Mr R Brewer, *National Museum Wales*
Councillor Mr D M D Clayton, *Flintshire County Council*
Councillor R W Morgan, *Powys County Council*
Mrs N P Parker, *Flintshire Historical Society*
Mr D Pratt, *Denbighshire Historical Society*
Councillor T J Van Rees, *Powys County Council*
Councillor D Rogers, *Wrexham County Borough Council*

Staff

Administration Team

Mr W J Britnell, *Director/Company Secretary*
Mrs J E Britnell, *Administrative Officer*
Mrs M Godsell, *Finance Assistant*

Project Team

Mr R J Silvester, *Deputy Director/Head of Field Services*
Mr N W Jones, *Senior Project Archaeologist*
Mr I Grant, *Project Archaeologist*
Mr R Hankinson, *Project Archaeologist*
Ms W J Owen, *Project Archaeologist*

Curatorial Team

Mr C H R Martin, *Head of Curatorial Services*
Ms A McCullough, *Heritage Management Archaeologist*
Mr J Spencer, *Regional Historic Environment Record Officer*
Mr D Vaughan, *Heritage Management Archaeologist*
Mr M Walters, *Development Control Officer*
Ms S Watson *Heritage Management Archaeologist*

Accountants

Tranter Lowe, Oakengates & Telford

Auditors

Whittingham Riddell LLP, Newtown & Shrewsbury

Solicitors

Turnbull Garrard, Shrewsbury

Bankers

National Westminster Bank, Welshpool

YMDDIRIEDOLWYR, Y PWYLLGOR, AELODAU, STAFF AC YMGYNGHORWYR 2007/08

Ymddriedolwyr/Cyfarwyddwyr y Cwmni

Mrs Frances M Lynch Llewellyn, Cadeirydd, *Bangor*
Dr Jeffrey L Davies, Is-Gadeirydd, *Aberystwyth*
Mr Christopher R Musson, *Aberystwyth*
Mr David W L Rowlands, *Llanerfyl*
Mr David Morgan, *Aberhonddu*

Pwyligor Ymgynghorol

Professor Stephen H R Aldhouse-Green, *Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd*
Mr Kenneth S Brassil, *Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru*
Mr Peter Dorling, *Brycheiniog*
Dr Emma Plunkett Dillon, *Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru*
Professor Dai Morgan Evans, *Llundain a Llanerfyl*
Mrs Fiona Gale, *Cyngor Sir Ddinbych*
Dr Jodie Lewis, *University of Worcester*
Mr Stephen Grenter, *Cynfor Bwrdeistref Sirol Wrecsam*
Mrs Hilary Malaws, *Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru*
Mr Edward Parry, A*berhafesp, Montgomeryshire*
Dr David Petts, *University of Chester*
Dr Sian Rees, *sylwedydd i Cadw*

Aelodau

Mrs S Cole, *Cymdeithas Sir Faesyfed*
Y Cynghorydd G R Banks, *Cyngor Sir Powys*
Miss E Bredsdorff, *Amgueddfa Powysland*
Mr R Brewer, *Amgueddfa Genedlaethol Cymru*
Y Cynghorydd D M D Clayton, *Cyngor Sir y Fflint*
Councillor R W Morgan, *Cyngor Sir Powys*
Mrs N P Parker, *Cymdeithas Hanesyddol Sir y Fflint*
Mr D Pratt, *Cymdeithas Hanesyddol Sir Ddinbych*
Y Cynghorydd T J Van Rees, *Cyngor Sir Powys*
Y Cynghorydd D Rogers, *Bwrdeistref Sirol Wrecsam*

Staff

Tim Gweinyddol

Mr W J Britnell, *Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Cwmni*
Mrs J E Britnell, *Swyddog Gweinyddol*
Mrs M Godsell, *Cynorthwy-ydd Cyllid*

Tîm Prosiect

Mr R J Silvester, *Dirprwy Gyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaethau Maes*
Mr N W Jones, *Uwch Archeolegwr Prosiect*
Mr I Grant, *Archeolegwr Prosiect*
Mr R Hankinson, *Archeolegwr Prosiect*
Ms W J Owen, *Archeolegwr Prosiect*

Tîm Curadurol

Mr C H R Martin, *Prif Swyddog Curadurol*
Mr D Bull, *Archeolegwr Rheoli Treftadaeth*
Mrs A McCullough, *Archeolegwr Rheoli Treftadaeth*
Mr J Spencer, *Swyddog Cofnodion Safleoedd a Henebion*
Mr D Vaughan, *Archeolegwr Rheoli Treftadaeth*
Mr M Walters, *Swyddog Rheoli Datblygiad*

Cyfrifyddion

Tranter Lowe, Oakengates

Archwilwyr

Whittingham Riddell LLP, Y Trenewydd ac Amwythig

Cyfreithwyr

Turnbull Garrard, Amwythig

Bancwrwyr

National Westminster Bank, Y Trallwng